



## Trafnidiaeth wedi ei Chontractio o'r Cartref i'r Ysgol Cyngor Bro Morgannwg (2020-21) Gofynion Diogelwch Covid-19 ar gyfer Rhieni, Gofalwyr a Dysgwyr

Yn ychwanegol at 'Bolisi Darparu Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg' y Cyngor, mae'r canllawiau/gofynion canlynol yn cael eu defnyddio yn ystod y pandemig Covid19 presennol er diogelwch pawb.

Sylwer, drwy ddefnyddio trafndiaeth ysgol, bod Rhieni/Gofalwyr a Dysgwyr yn cytuno i'r canllawiau a'r protocolau ac y gallai methu â chydymffurfio â hwy arwain at dynnu trafndiaeth yn ôl ar unwaith. Mae contractwyr wedi cael cyfarwyddyd i adrodd am broblemau ymddygiad ac achosion o dorri'r canllawiau neu brotocolau i dîm Trafnidiaeth Teithwyr y Cyngor yn ddi-oed. Gellir cyflwyno gwaharddiadau ar unwaith os na fydd disgyblion yn cadw at yr hyn a ddisgwylir ganddynt.

Mae pob Dysgwr, Gyrrwr a Chynorthwy-ydd Teithio sy'n defnyddio cerbydau trafndiaeth yr ysgol yn deithwyr awdurdodedig gyda manylion cyswllt cofnodedig er mwyn galluogi 'Profi, Orlhain, Diogelu' os bydd achosion COVID19.

Rhaid i Ddysgwyr neu eu Rhieni/Gofalwyr (lle bo hynny'n berthnasol) gydymffurfio â'r gofynion a'r protocolau canlynol:

- Rhaid i ddysgwyr beidio â defnyddio trafndiaeth ysgol thrafnidiaeth gyhoeddus os oes ganddynt symptomau Covid19 (h.y. gwres uchel, peswch parhaus neu golli arogl a blas) neu'n dioddef o unrhyw salwch tymhorol arall.  
(DS. Ni fydd dysgwyr sy'n dangos symptomau COVID19 yn cael teithio ar drafnidiaeth ysgol). Yng nghyfeiriad cartref dysgwr, mae gan y Gyrrwr a/neu'r Cynorthwy-ydd Teithio bŵer i wrthod i ddysgwr deithio a byddant yn rhoi gwybod am unrhyw achosion lle gwrthodir teithio oherwydd symptomau COVID19 yn syth i Staff yr Ysgol a'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr.)
- Rhaid i Rhieni/Gofalwyr hysbysu'r ysgol a'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr yn ddi-oed os yw'r Dysgwr neu unrhyw un o fewn aelwyd y Dysgwr yn datblygu symptomau Covid19 ar ôl defnyddio trafndiaeth ysgol, fel a ganlyn:
  - Trafnidiaeth ysgol brif ffrwd  
E-bostio: [schooltransport@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:schooltransport@valeofglamorgan.gov.uk)  
Ffonio: 02920 673134
  - Trafnidiaeth ysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol:  
E-bostio: [SchoolTransportSEN@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:SchoolTransportSEN@valeofglamorgan.gov.uk)  
Ffonio: 029 20 673147/148
- Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid ceisio prawf Covid19 ar unwaith ar gyfer y Dysgwr dan sylw, a gaiff ei gynghori i hunanynysu tan i ganlyniad y prawf fod ar gael ac y rhoddir canllawiau pellach (<https://www.nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/testing-and-tracing/get-a-test-to-check-if-you-have-coronavirus/>). Yn ogystal, rhaid rhoi gwybod hefyd i'r Ysgol a'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr am ganlyniad y prawf Covid19, gan y gallai fod angen i eraill sydd wedi dod i gysylltiad â'r dysgwr â symptomau hunanynysu hefyd yn y cyfamser.
- Rhaid i ddysgwyr gydymffurfio'n llawn â chyfarwyddiadau a roddir gan Yrwyrr a Chynorthwywyr Teithio a Staff yr Ysgol o ran mynd i mewn i ac allan o gerbydau trafndiaeth safleoedd ysgolion/colegau, yn ogystal ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir ynghylch ble i eistedd. Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i eistedd mewn grwpiau blwyddyn lle bo'n ymarferol.
- Os yw'n bosibl, rhaid i ddysgwyr beidio â defnyddio'r seddi sy'n uniongyrchol y tu ôl i'r gyrrwr oni bai nad oes seddi eraill ar gael.

- Rhaid i'r dysgwyr beidio â chau ffenestr(i)/awyryddion/ffenestri to (lle bo'n berthnasol) sydd wedi'u hagor i gynnal awyru da o fewn y cerbyd.
- Rhaid i ddysgwyr beidio â bwyta bwyd nac yfed diod mewn cerbydau trafndiaeth ysgol.
- Rhaid i ddysgwyr beidio â thafllu neu adael cyfarpar diogelu personol (PPE), hancesi papur na sbwriel cyffredinol ar y cerbyd.
- Rhaid i ddysgwyr aros ar eu heistedd wedi mynd i mewn i'r cerbyd.
- Er nad yw defnyddio gorchuddion wyneb (masgiau) yn ofynnol ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw Ddysgwyr sy'n cael eu cludo rhwng y cartref a'r ysgol ar drafnidiaeth ysgol benodedig, mae'r Llywodraeth yn argymhell defnyddio gorchuddion wyneb tair haen ar gyfer pob teithiwr (11+ oed) ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- **Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ei gwneud yn orfodol (h.y. yn ofyniad) i Ddysgwyr o oed ysgolion uwchradd (11+ oed) a Gyrwyr a Chynorthwywyr Teithio wisgo mygydau wyneb wrth deithio ar wasanaethau trafndiaeth 'cartref i'r ysgol' dan gontract y Cyngor. Bydd rhieni/gofalwyr yn gyfrifol am roi mygydau wyneb i ddisgyblion.**
- Os oes unrhyw resymau iechyd priodol sy'n golygu nad yw'n bosibl i'r dysgwr/gyrrwr/cynorthwy-ydd teithwyr wisgo mwgwd wyneb mae angen datgan hyn i'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr cyn teithio. Gwrthodir teithio i unrhyw Ddysgwr Ysgol Uwchradd (11+ oed) sy'n ceisio mynd i mewn i gerbyd trafndiaeth ysgol dan gontract heb orchudd (mwgwd). \*\*
- Mae'r Cyngor yn argymhell defnyddio gorchuddion wyneb ar gyfer dysgwyr ysgolion cynradd a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n methu cadw pellter cymdeithasol (2 fetr). Efallai y bydd amgylchiadau lle y byddai anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc yn ei gwneud yn amhriodol i wisgo masg wyneb ac o dan yr amgylchiadau hyn dylid cynnal asesiad risg i liniaru unrhyw risg ychwanegol.
- Bydd defnyddio menig amddiffynnol gan ddysgwyr yn fater iddyn nhw benderfynu yn ei glych, ond o'u defnyddio rhaid eu tynnu a'u gwaredu'n gyfrifol.
- Caiff Dysgwyr eu hannog i olchi eu dwylo yn syth cyn teithio ac eto ar ôl ysgol cyn mynd i mewn i gerbyd, gan ddefnyddio naill ai dŵr cynnes neu ddiheintydd dwylo addas.
- Argymhellir bod rhieni/gofalwyr yn rhoi diheintydd dwylo i ddisgyblion.

\*\* Y rhiant/gofalwr sydd i ddarparu mygydau wyneb i ddysgwyr a'r cyflogwr sydd i'w darparu i Yrwy/Cynorthwywyr Teithio.

Gallai'r canllawiau gael eu newid fyr rybudd ac felly cynghorir rhieni/gofalwyr i edrych ar wefan y Cyngor i gael y wybodaeth ddiweddaraf:

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/transportation/school\\_transport/School-Transport.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/transportation/school_transport/School-Transport.aspx)

14/08/2020